



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2003 Rhif 394 (Cy.53)**

**2003 No. 394 (W.53)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a  
Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac  
Apelau) (Cymru) 2003

The Town and Country Planning  
(Enforcement Notices and Appeals)  
(Wales) Regulations 2003

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ailddeddfu gyda diwygiadau Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi a Apelau) 1991.

These Regulations re-enact with amendments the Town and Country Planning (Enforcement Notices and Appeals) Regulations 1991.

Maent yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r canlynol-

They contain provisions relating to-

- (a) cynnwys hysbysiadau gorfodi a gyhoeddir o dan adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r wybodaeth i'w darparu gan yr awdurdodau cynllunio lleol wrth gyflwyno copïau o hysbysiadau o'r fath (Rhan 2);
- (b) y gweithdrefnau i'w dilyn ynglŷn ag apelau yn erbyn hysbysiadau o'r fath ac yn erbyn hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a ddyroddir o dan adran 38(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (Rhan 3); a
- (c) cymhwyso'r Rheoliadau i hysbysiadau o'r fath a ddyroddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Rhan 4).

- (a) the contents of enforcement notices issued under section 172 of the Town and Country Planning Act 1990 and the information to be provided by local planning authorities when serving copies of such notices (Part 2);
- (b) the procedure to be followed in relation to appeals against such notices and against listed building and conservation areas enforcement notices issued under section 38(1) of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (Part 3); and
- (c) the application of the Regulations to such notices issued by the National Assembly for Wales (Part 4).

Yn ychwanegol at ddiwygiadau mân a rhai sy'n ymwneud â drafftio, mae'r Rheoliadau yn gwneud y newidiadau canlynol o sylwedd-

In addition to minor and drafting amendments, the Regulations make the following changes of substance-

- (a) mae rheoliad 3(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol, yn ychwanegol, roi manylion am bob polisi a chynnig yn y cynllun datblygu sy'n berthnasol i'r penderfyniad i ddyroddi hysbysiad gorfodi;

- (a) regulation 3(b) requires the local planning authority to additionally specify details of all policies and proposals in the development plan relevant to the decision to issue an enforcement notice;

- (b) mae rheoliad 4 yn pennu pa faterion y dylid ymdrin â hwy yn y nodyn esboniadol a anfonir gyda'r hysbysiad gorfodi. Y ffi sydd i'w thalu am gais tybiedig am ganiatâd cynllunio a rhestr o enwau a chyfeiriadau y rhai y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi iddynt yw'r materion ychwanegol i'w cynnwys;
- (c) mae rheoliad 6 yn cynnwys gofyniad ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol bod apêl wedi'i wneud yn erbyn yr hysbysiad gorfodi a rhoi copi o ddatganiad apêl yr apelydd i'r awdurdod cynllunio lleol;
- (ch) mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol yn ychwanegol i'r awdurdod cynllunio lleol anfon copi o'i ddatganiad at bob person y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi iddo;
- (d) rhaid i ddatganiad yr awdurdod cynllunio lleol o dan reoliad 8 gael ei anfon o fewn 6 wythnos ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig o dan reoliad 9 neu hysbysu'r partïon bod ymchwiliad neu wrandawriad i'w gynnal, p'un bynnag yw'r diweddaraf;
- (dd) mae rheoliad 9 yn cynnwys gofyniad ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru hysbysu'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol pan fo o'r farn ei fod wedi cael yr holl ddogfennau y mae eu hangen i'w alluogi i ystyried yr apêl; ac
- (e) mae rheoliad 12 yn awdurdodi dogfennau sy'n cael eu hanfon yn unol â'r Rheoliadau hyn gael eu hanfon drwy gyfrwng electronig.
- (b) regulation 4 sets out what matters should be dealt with in the explanatory note accompanying the enforcement notice. Additional matters to be included are the fee payable for a deemed application for planning permission and a list of names and addresses on whom a copy of the enforcement notice has been served;
- (c) regulation 6 contains an additional requirement for the National Assembly for Wales to notify the local planning authority that an appeal has been made against the enforcement notice and to copy the appellant's statement of appeal to the local planning authority;
- (d) regulation 8 additionally requires the local planning authority to send a copy of its statement to all persons on whom a copy of the enforcement notice was served;
- (e) the local planning authority's statement under regulation 8 must be sent within 6 weeks of the National Assembly for Wales' written notice given under regulation 9 or notifying the parties that an inquiry or hearing is to be held, whichever is later;
- (f) regulation 9 contains an additional requirement for the National Assembly for Wales to notify the appellant and the local planning authority when it considers that it has received all the documents required to enable it to entertain the appeal; and
- (g) regulation 12 authorises documents, which are sent in accordance with these Regulations, to be sent by means of electronic communication.

**2003 Rhif 394 (Cy.53)****2003 No. 394 (W.53)****CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU****TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES****Rheoliadau Cynllunio Gwlad a  
Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac  
Apelau) (Cymru) 2003****The Town and Country Planning  
(Enforcement Notices and Appeals)  
(Wales) Regulations 2003***Wedi'u gwneud**25 Chwefror 2003**Made**25th February 2003**Yn dod i rym**1 Mawrth 2003**Coming into force**1 April 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gan adrannau 173(10)(a), 174(4), 175(1), a 336(1)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(c) ac adrannau 39(4), 40(1), 42(5) a 91(1)(ch) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(d) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State, and now vested in the National Assembly for Wales, by sections 173(10)(a), 174(4), 175(1), and 336(1)(b) of the Town and Country Planning Act 1990(c) and sections 39(4), 40(1), 42(5) and 91(1)(d) of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990(e) and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Regulations:

- (a) Amnewidiwyd adran 173 gan adran 5(1) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 (p.34).
- (b) Mae adran 336(1) yn darparu'r diffiniad o "prescribed".
- (c) 1990 p.8; trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 173(10), 174(4), a 175(1), mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac Atodlen 1 iddo ac maent, i'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru, wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253 (Cy.5)) ac Atodlen 3 iddo.
- (ch) Mae adran 91(1) yn darparu'r diffiniad o "prescribed".
- (d) 1990 p.9; mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 39(4), 40(1) a 42(5), i'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru, wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

- (a) Section 173 was substituted by section 5(1) of the Planning and Compensation Act 1991 (c.34).
- (b) Section 336(1) provides the definition of "prescribed".
- (c) 1990 c.8; the functions of the Secretary of State under sections 173(10), 174(4), and 175(1) were, in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are, so far as exercisable in relation to Wales, vested in the National Assembly for Wales by article 4 of, and Schedule 3 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253 (W.5)).
- (d) Section 91(1) provides the definition of "prescribed".
- (e) 1990 c.9; the functions of the Secretary of State under sections 39(4), 40(1) and 42(5) are, so far as exercisable in relation to Wales, vested in the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

ENWI, CYCHWYN, CYMHWYSO A  
DEHONGLICITATION, COMMENCEMENT, APPLICATION  
AND INTERPRETATION**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003 a byddant yn dod i rym ar 1 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

2. Yn y rheoliadau hyn:

"awdurdod cynllunio lleol" ("*local planning authority*") yw'r corff sy'n cyhoeddi'r hysbysiad gorfodi perthnasol;

"y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

"y Ddeddf Adeiladau Rhestredig" ("*the Listed Buildings Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

"y Ddeddf Gynllunio" ("*the Planning Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; a

"hysbysiad gorfodi" ("*enforcement notice*") yw hysbysiad a gyhoeddir o dan adran 172(1)(a) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 38(1) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig.

**Citation, commencement and application**

1.-(1) These Regulations may be cited as the Town and Country Planning (Enforcement Notices and Appeals) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 1 April 2003.

(2) These Regulations apply to Wales.

**Interpretation**

2. In these Regulations-

"enforcement notice" ("*hysbysiad gorfodi*") means a notice issued under section 172(1)(a) of the Planning Act or section 38(1) of the Listed Buildings Act;

"the Listed Buildings Act" ("*y Ddeddf Adeiladau Rhestredig*") means the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990;

"local planning authority" ("*awdurdod cynllunio lleol*") means the body who issue the relevant enforcement notice;

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales; and

"the Planning Act" ("*y Ddeddf Gynllunio*") means the Town and Country Planning Act 1990.

HYSBYSIADAU GORFODI O DAN ADRAN  
172ENFORCEMENT NOTICES UNDER SECTION  
172**Materion ychwanegol i'w nodi mewn hysbysiad gorfodi**

3. Rhaid i hysbysiad gorfodi a ddyroddir o dan adran 172 o'r Ddeddf Gynllunio nodi-

- (a) y rhesymau pam y mae'r awdurdod cynllunio lleol o'r farn ei bod yn briodol dyroddi'r hysbysiad;
- (b) pob polisi a chynnig yn y cynllun datblygu sy'n berthnasol i'r penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad gorfodi; a

**Additional matters to be specified in enforcement notice**

3. An enforcement notice issued under section 172 of the Planning Act must specify-

- (a) the reasons why the local planning authority consider it expedient to issue the notice;
- (b) all policies and proposals in the development plan which are relevant to the decision to issue an enforcement notice; and

(a) Amnewidiwyd adran 172(1) gan adran 5(1) o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal Deddf 1991 (p.34).

(a) Section 172(1) is substituted by section 5(1) of the Planning and Compensation Act 1991 (c.34).

- (c) union ffiniau'r tir y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddo, boed drwy gyfeirio at blân neu fel arall.

#### **Nodyn esboniadol i'w anfon gyda chopi o'r hysbysiad gorfodi**

4. Rhaid i bob copi o hysbysiad gorfodi a gyflwynir gan awdurdod cynllunio lleol o dan adran 172(2) o'r Ddeddf Gynllunio gael ei anfon gyda nodyn esboniadol a rhaid i hwnnw gynnwys yr hyn a ganlyn-

- (a) copi o adrannau 171A, 171B a 172 hyd 177 o'r Ddeddf Gynllunio, neu grynodedb o'r adrannau hynny gan gynnwys y wybodaeth ganlynol-
  - (i) bod hawl apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn yr hysbysiad gorfodi hwnnw;
  - (ii) bod modd gwneud apêl dim ond drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o'r apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad gorfodi fel y dyddiad y bydd yn effeithiol arno neu drwy anfon hysbysiad o'r fath i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn llythyr wedi'i gyfeirio yn gywir, y talwyd am ei gludiant ymlaen llaw, ac sydd wedi'i bostio iddo ar y fath amser fel, yn ôl gwasanaeth arferol y post, y byddai'n cyrraedd cyn y dyddiad hwnnw;
  - (iii) ar ba seiliau y gellid gwneud apêl o dan adran 174 o'r Ddeddf Gynllunio;
  - (iv) y ffi i'w thalu o dan rheoliad 10 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989(a) am y cais tybiedig am ganiatâd cynllunio i'r datblygiad yr honnir iddo dorri'r rheolaeth gynllunio yn yr hysbysiad gorfodi;
- (b) hysbysiad bod rhaid i apelydd anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, naill ai wrth roi rhybudd o apêl neu o fewn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn anfon hysbysiad at yr apelydd yn gwneud hynny'n ofynnol, ddatganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r seiliau y mae'r apelydd yn apelio arnynt yn erbyn yr hysbysiad gorfodi gan ddatgan yn gryno'r ffeithiau y mae'r apelydd yn bwriadu dibynnu arnynt i gefnogi pob un o'r seiliau hynny; ac
- (c) rhestr o enwau a chyfeiriadau y personau y mae copi o'r hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno iddynt.

- (c) the precise boundaries of the land to which the notice relates, whether by reference to a plan or otherwise.

#### **Explanatory note to accompany copy of enforcement notice**

4. Every copy of an enforcement notice served by a local planning authority under section 172(2) of the Planning Act must be accompanied by an explanatory note which must include the following-

- (a) a copy of sections 171A, 171B and 172 to 177 of the Planning Act, or a summary of those sections including the following information-
  - (i) that there is a right of appeal to the National Assembly against that enforcement notice;
  - (ii) that an appeal can only be made by giving written notice of the appeal to the National Assembly before the date specified in the enforcement notice as the date on which it is to take effect or by sending such notice to the National Assembly in a properly addressed, pre-paid letter posted to it at such time that, in the ordinary course of post, it would be received by it before that date;
  - (iii) the grounds on which an appeal may be brought under section 174 of the Planning Act;
  - (iv) the fee payable under regulation 10 of the Town and Country Planning (Fees for Applications and Deemed Applications) Regulations 1989(a) for the deemed application for planning permission for the development alleged to be in breach of planning control in the enforcement notice;
- (b) notification that an appellant must send to the National Assembly, either when giving notice of appeal or within 14 days from the date on which the National Assembly sends to the appellant a notice so requiring, a statement in writing specifying the grounds on which the appellant is appealing against the enforcement notice and stating briefly the facts on which the appellant proposes to rely in support of each of those grounds; and
- (c) a list of the names and addresses of the persons on whom a copy of the enforcement notice has been served.

---

(a) O.S. 1989/193, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/2735 ac y mae diwygiadau eraill iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

---

(a) S.I. 1989/193, as amended by S.I. 1991/2735 and to which there other amendments not relevant to these Regulations.

**Datganiad o Apêl**

5. Rhaid i berson sy'n gwneud apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 174(3) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 39(2) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn erbyn hysbysiad gorfodi anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatganiad ysgrifenedig-

- (a) sy'n nodi'r seiliau y mae'r apêl yn cael ei wneud arnynt; ac
- (b) sy'n rhoi yn gryno y ffeithiau y mae'r apelydd yn bwriadu dibynnu arnynt i gefnogi pob un o'r seiliau hynny,

ac os nad anfonir datganiad o'r fath gyda'r apêl, rhaid i'r apelydd ei anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol fel y bydd yn cyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol nid hwyrach na 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn anfon at yr apelydd hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny.

**Hysbysiad o apêl i'r awdurdod cynllunio lleol**

6. Pan gaiff y Cynulliad Cenedlaethol ddatganiad o dan reoliad 5, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig bod apêl wedi'i wneud a rhoi copi o'r apêl a'r datganiad a wnaed o dan reoliad 5 i'r awdurdod cynllunio lleol.

**Awdurdod cynllunio lleol i anfon copi o hysbysiad i'r Cynulliad Cenedlaethol**

7. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cael hysbysiad o dan reoliad 6 bod apêl wedi'i gwneud i'r Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, nid hwyrach na 14 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwnnw, gopi ardystiedig o'r hysbysiad gorfodi a rhestr o enwau a chyfeiriadau'r personau y mae copi o'r hysbysiad wedi'i gyflwyno iddynt o dan adran 172(2) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 38(4) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig, yn ôl y digwydd.

**Datganiad gan awdurdod cynllunio lleol**

8.-(1) Os yw apêl wedi'i wneud i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn hysbysiad gorfodi a ddyroddwyd gan awdurdod cynllunio lleol, rhaid i'r awdurdod anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac at unrhyw berson y mae copi o'r hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno iddo, ddatganiad sy'n dangos y cyflwyniadau y mae'n bwriadu rhoi gerbron ynglŷn â'r apêl, gan gynnwys-

- (a) crynodeb o ymateb yr awdurdod i bob sail i'r apêl y mae'r apelydd yn ei wneud; a
- (b) datganiad sy'n dweud a fyddai'r awdurdod yn

**Statement of appeal**

5. A person who makes an appeal to the National Assembly under section 174(3) of the Planning Act or section 39(2) of the Listed Buildings Act against an enforcement notice must send to the National Assembly a statement in writing-

- (a) specifying the grounds on which the appeal is brought; and
- (b) setting out briefly the facts on which the appellant proposes to rely in support of each of those grounds,

and if such a statement is not included with the appeal, the appellant must send it to the National Assembly so that it is received by the National Assembly not later than 14 days from the date on which the National Assembly sends the appellant a notice requiring them to do so.

**Notification of appeal to the local planning authority**

6. Upon receipt of the statement under regulation 5, the National Assembly must notify the local planning authority in writing that an appeal has been made and copy to the local planning authority the appeal and the statement made under regulation 5.

**Local planning authority to send a copy of notice to the National Assembly**

7. Where the local planning authority receives notification under regulation 6 that an appeal has been made to the National Assembly, the local planning authority must send to the National Assembly, not later than 14 days from the date of that notification, a certified copy of the enforcement notice and a list of names and addresses of the persons on whom a copy of the notice has been served under section 172(2) of the Planning Act or section 38(4) of the Listed Buildings Act, as the case may be.

**Statement by local planning authority**

8.-(1) Where an appeal has been made to the National Assembly against an enforcement notice issued by a local planning authority, the authority must send to the National Assembly, and any person on whom a copy of the enforcement notice has been served, a statement indicating the submissions which it proposes to put forward on the appeal, including-

- (a) a summary of the authority's response to each ground of appeal pleaded by the appellant; and
- (b) a statement whether the authority would be

fodlon rhoi caniatâd cynllunio i'r materion yr honnir yn yr hysbysiad gorfodi eu bod yn torri'r rheolaeth gynllunio, neu roi cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth i'r gwaith y mae'r hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig neu hysbysiad gorfodi ardal gadwraeth yn berthnasol iddo, yn ôl y digwydd, ac, os felly, yn rhoi manylion am yr amodau, os oes rhai, y byddai am eu gorfodi ar y caniatâd neu'r cydsyniad.

(2) Rhaid i unrhyw ddatganiad y mae'n ofynnol ei anfon o dan baragraff (1) gyrraedd o fewn 6 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "dyddiad dechrau" yw dyddiad-

- (a) hysbysiad ysgrifenedig y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 9; neu
- (b) hysbysiad ysgrifenedig y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Rheolau a wnaed o dan adran 9 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 sy'n hysbysu'r apleydd a'r awdurdod cynllunio lleol bod ymchwiliad neu wrandawriad, yn ôl y digwydd, i'w gynnal, p'un bynnag yw'r diweddaraf.

#### **Hysbysiad bod pob dogfen sydd ei hangen wedi cyrraedd**

9. Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn bod pob dogfen sydd ei hangen i'w alluogi iddo i ystyried yr apêl wedi cyrraedd, rhaid iddo anfon hysbysiad i'r perwyl hwn at yr apelydd ac i'r awdurdod cynllunio lleol.

#### **RHAN 4**

#### **HYSBYSIADAU A DDYRODDIR GAN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

#### **Cymhwyso'r Rheoliadau hyn**

10. Mae'r Rheoliadau hyn, heblaw rheoliadau 6 a 7, yn gymwys i hysbysiadau gorfodi a ddyroddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 182 o'r Ddeddf Gynllunio, i apelau wedi'u gwneud i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn hysbysiadau o'r fath ac i apelau yn erbyn hysbysiadau a ddyroddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 46 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig fel y maent yn gymwys i hysbysiadau o'r fath a ddyroddir gan awdurdodau cynllunio lleol ac i apelau wedi'u gwneud yn eu herbyn fel petai-

- (a) cyfeiriadau at y Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu rhoi yn lle cyfeiriadau at awdurdodau cynllunio lleol;
- (b) yn rheoliad 3, "adran 182" wedi'i roi yn lle "adran 172";

prepared to grant planning permission for the matters alleged in the enforcement notice to constitute the breach of planning control, or grant listed building consent or conservation area consent for the works to which the listed buildings enforcement notice or conservation area enforcement notice relates, as the case may be, and, if so, particulars of the conditions, if any, which it would wish to impose on the permission or consent.

(2) Any statement which is required to be sent under paragraph (1) must be received within 6 weeks of the starting date.

(3) In paragraph (2), "starting date" means the date of-

- (a) the National Assembly's written notice under regulation 9; or
- (b) the National Assembly's written notice served in accordance with Rules made under section 9 of the Tribunals and Inquiries Act 1992, informing the appellant and the local planning authority that an inquiry or hearing, as the case may be, is to be held, whichever is the later.

#### **Notice of receipt of all required documents**

9. When the National Assembly considers that it has received all the documents required to enable it to entertain the appeal, it must send a notice to this effect to the appellant and the local planning authority.

#### **PART 4**

#### **NOTICES ISSUED BY THE NATIONAL ASSEMBLY**

#### **Application of these Regulations**

10. These Regulations, except regulations 6 and 7, apply to enforcement notices issued by the National Assembly under section 182 of the Planning Act, to appeals made to the National Assembly against such notices and to appeals against notices issued by the National Assembly under section 46 of the Listed Buildings Act as they apply to such notices issued by local planning authorities and to appeals made against them as if-

- (a) for references to a local planning authority there were substituted references to the National Assembly;
- (b) in regulation 3, for "section 172" there were substituted "section 182";

- (c) yn rheoliad 4-
- (i) "adran 182(1)" wedi'i roi yn lle "adran 172(2)"; a
  - (ii) ym mharagraff (a), "adrannau 171A, 171B, 172 hyd 177 a 182" wedi'i roi yn lle "adrannau 171A, 171B a 172 hyd 177"; a

(ch) yn lle rheoliad 8, y canlynol wedi'i roi -

"8. Os bydd apêl wedi'i wneud i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn hysbysiad gorfodi y mae wedi'i gyhoeddi, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon at yr apelydd ddatganiad sy'n dangos pa gyflwyniadau y mae'n bwriadu dwyn gerbron ynglŷn â'r apêl (gan gynnwys crynodeb o'i ymateb i bob sail i'r apêl a gyflwynwyd gan yr apelydd) o fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau."

- (c) in regulation 4-
- (i) for "section 172(2)" there was substituted "section 182(1)"; and
  - (ii) in paragraph (a), for "sections 171A, 171B and 172 to 177" there were substituted "sections 171A, 171B, 172 to 177 and 182"; and

(d) for regulation 8 the following were substituted-

"8. Where an appeal has been made to the National Assembly against an enforcement notice which it has issued, the National Assembly must send to the appellant a statement indicating the submissions which it proposes to put forward on the appeal (including a summary of its response to each ground of appeal pleaded by the appellant) within 6 weeks of the starting date."

## RHAN 5

### DIRYMU

#### Dirymu a darpariaethau trosiannol

11.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiaidau Gorfodi ac Apelau) 1991(a) ("Rheoliadau 1991") drwy hyn wedi'u dirymu i'r graddau eu bod yn gymwys i Gymru, heblaw rheoliad 10(2) o'r Rheoliadau hynny i'r graddau ei fod yn diwygio rheoliad 11 o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(b).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiaidau Gorfodi ac Apelau) (Diwygio) 1992(c) drwy hyn wedi'u dirymu i'r graddau eu bod yn gymwys i Gymru.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae unrhyw apêl yr oedd Rheoliadau 1991 yn gymwys iddo ac na phenderfynwyd arno erbyn y dyddiad pan ddaw y rheoliadau hyn i rym i'w barhau o dan Reoliadau 1991.

(4) Os bydd apêl y mae Rheoliadau 1991 yn gymwys iddo yn cael ei ailgyflwyno wedi hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w ailbenderfynu mewn achos o flaen unrhyw lys, mae'r penderfyniad i'w ailbenderfynu yn unol â'r Rheoliadau hyn ac nid Rheoliadau 1991.

---

(a) O.S. 1991/2804 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1992/1492 a 1992/1904.

(b) O.S. 1990/1519.

(c) O.S. 1992/1904.

## PART 5

### REVOCATION

#### Revocation and transitional provisions

11.-(1) Subject to paragraph (3), the Town and Country Planning (Enforcement Notices and Appeals) Regulations 1991(a) ("the 1991 Regulations") are hereby revoked in so far as they apply to Wales, except regulation 10(2) of those Regulations so far as it amends regulation 11 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Regulations 1990(b).

(2) Subject to paragraph (3), the Town and Country Planning (Enforcement Notices and Appeals) (Amendment) Regulations 1992(c) are hereby revoked in so far as they apply to Wales.

(3) Subject to paragraph (4), any appeal to which the 1991 Regulations applied which has not been determined on the date when these Regulations come into force is to be continued under the 1991 Regulations.

(4) Where an appeal to which the 1991 Regulations applied is subsequently remitted to the National Assembly for re-determination in proceedings before any court, the decision is to be re-determined in accordance with these Regulations and not the 1991 Regulations.

---

(a) S.I. 1991/2804, as amended by S.I. 1992/1492 and 1992/1904.

(b) S.I. 1990/1519.

(c) S.I. 1992/1904.



## TROSGLWYDDO DOGFENNAU

## TRANSMISSION OF DOCUMENTS

**Trosglwyddo dogfennau**

**12.** -(1) Gellir anfon unrhyw ddogfennau y mae'n ofynnol eu hanfon, neu yr awdurdodwyd eu hanfon, gan y naill berson at y llall o dan y Rheoliadau hyn drwy gyfrwng cyfathrebu electronig a rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at ysgrifennu yn y Rheoliadau hyn, sut bynnag y caiff ei fynegi, fel petai'n cynnwys cyfeiriad at ffurf y mae modd ei chadw ar gyfrifiadur, ei throsglwyddo i gyfrifiadur ac oddi wrth gyfrifiadur, a'i darllen gan gyfrifiadur.

(2) Os oes gofyniad, o dan y Rheoliadau hyn, y dylid anfon copi o ddatganiad, sylw, hysbysiad neu ddogfen arall gan y naill berson at y llall, yna, os anfonir y copi hwnnw drwy gyfrwng cyfathrebu electronig, dylid diystyru unrhyw ofyniad pellach bod rhaid anfon mwy nag un copi.

**Transmission of documents**

**12.** -(1) Any document required or authorised to be sent by one person to another under these Regulations may be sent by post or by means of electronic communication and any reference in these Regulations, however expressed, to writing is to be construed as including a reference to a form capable of being stored on, transmitted to and from, and read by means of a computer.

(2) Where, under these Regulations, there is a requirement that a copy of a statement, representation notice or other document should be sent by one person to another then, if that copy is sent by means of electronic communication, any further requirement that more than one copy should be sent is to be disregarded.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

25 Chwefror 2002

25th February 2002

*D.Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) 1998 p.38.

---

(a) 1998 c.38.





---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2003 Rhif 394 (Cy.53)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a  
Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac  
Apelau) (Cymru) 2003

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2003 No. 394 (W.53)**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

The Town and Country Planning  
(Enforcement Notices and Appeals)  
(Wales) Regulations 2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£2.50**

W49/03/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090687-X



9 780110 906874